Rhifyn Ebrill heb y clawr.qxp_Layout 1 18/03/2020 14:07 Page 1


# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 41. RHIF 11 EBRILL 2020 50c


## Cefnogi MacMillan



*Cyflwynwyd siec am £1,400 gan John P. Lyons, Knowsley i waith y nyrsus Admiral a fu mor ofalus o'i briod Marian. Ffrwyth Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl 2019 ydoedd y swm anrhydeddus.*

## Cadair Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain



*Marian Lloyd Jones, Wrecsam yn cael ei llongyfarch gan ei rhagflaenydd y Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans yng Nghadair Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain.*

## Seremoni cofio pensaer dawnus



*Rhai o aelodau Cantorion Bethel yn teimlo'r oerfel yn seremoni y pensaer – Richard Llewelyn Huws. Mwy o hanes ar dudalen ?*

## DATHLU DEUGAIN



*Llongyfarchiadau i Wena a Tim Evans, Allerton ar ddathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol.*


**YN Y RHIFYN HWN -**

Golygyddol : Gobaith y Groes i Ddau Fardd_

Newyddion o Bethel, Seion, Bethania, Cymry Lerpwl, Birkenhead a Manceinion

Cofio Richard Llewelyn Huws yn Lerpwl

Myfyrdod a llawer mwy.

Rhifyn Ebrill heb y clawr.qxp_Layout 1 18/03/2020 14:07 Page 2

Golygyddol

# Gobaith y Groes i Ddau Fardd – gan D. Ben Rees

Amaethwr yn y Gaerwen, plwyf Llanystumdwy yn Eifionydd oedd David Owen (1784-1841) a adnabyddid yn llenyddiaeth Cymru fel Dewi Wyn o Eifion. Dysgodd y grefft o gynganeddu gan gymydog iddo Robert Williams (1766-1850), neu Robert ap Gwilym Ddu, a adnabyddwn trwy ei emynau fel *'Mae'r gwaed a redodd ar y Groes'*. Cefnogwyr Capel y Bedyddwyr a elwir yn Capel y Beirdd ar y Lôn Goed oedd y ddau ac ychydig fisoedd cyn ei farw yn 1841 y daeth Dewi'n gyflawn aelod yno. Gwrandawr oedd ef cyn y penderfyniad hwnnw.


Ond teimlai i'r byw fel Cristion am gyflwr trist y werin-bobl a gwelir hynny yn amlwg yn ei awdl ar y testun *'Elusengarwch'* sy'n disgrifio sefyllfa gweithiwr cydwybodol sydd yn dad i deulu mawr:

*Mae y gŵr yn ymguraw*
*A'i dylwyth yn wyth neu naw,*
*Dan oer hin yn dwyn y rhaw –*
*mewn trymwaith*
*Bu ganwaith heb giniaw.*

Ac yna dywed Dewi Wyn ymhellach:

*Ba helynt ael ei blant cu*
*Oll agos a llewygu?*
*Dwyn ei geiniog dan gwynaw*
*Rhoi angen un rhwng y naw!*

Am y pum mlynedd olaf o'i oes bu'n orweddiog o waeledd corff a meddwl. Deuai pregethwyr amlwg ar eu teithiau i Gaerwen i'w gysuro yn ei ystafell wely. Bu John Elias yn ymweld â'r Gaerwen i weddïo wrth wely'r claf. Roedd ef wedi'r cyfan wedi ei eni yn Abererch nad oedd yn bell iawn o Lanystumdwy. Felly hefyd Owen Thomas (Llundain a Lerpwl yn ddiweddarach) yn ei eglwys gyntaf ym Mhwllheli. Ond yr ymwelydd mwyaf cyson i weld y bardd oedd Richard Humphreys, gweinidog Dyffryn Ardudwy. Un tro teithiodd Richard Humphreys gyda Dewi Wyn i'w helpu ar y ffordd faith i Lundain i dderbyn diagnosis meddygon blaenaf Harley Street.




Lluniodd Dewi Wyn lawer i linell gynghaneddol gofiadwy yn ei gaethiwed corfforol:

*Wedi cerydd daw coron ac eto*
*Nid yw cerydd ond cariad.*

Trueni na fyddwm ni yn 2020 yn cofio hynny weithiau. Ac yna'r cwpled:

*Gwae wired y gair doeth*
*Y daw gofid o gyfoeth.*

Dotiai Dewi Wyn ar yr englynion a luniodd ei gymydog caredig, Robert ap Gwilym Ddu am Grist ar y Groes. Eleni bwriedir portreadu dyddiau olaf Iesu ar y Groes, ***Liverpool Passion*** a hynny ar Wener y Groglith, Ebrill 10 rhwng 12 o'r gloch a 3.15 o'r gloch yn William Brown Street o flaen y Llyfrgell Ganolog (Central Library). Pris mynediad yn £7 i oedolion (£10 ar y dydd) a £5 i blant. Ffonier 0344 800 0410 – am fwy o fanylion ***liverpoolpassion.com***

Wrth fynd i William Brown Street darllenwch englynion Robert ap Gwilym Ddu i Grist y Groes:

*Pwy yw hwn sydd yn poeni? – Iesu yw,*
*Roes ei waed i'n golchi,*
*Drwy boen fawr bu'n dihoeni,*
*A'i boen oedd ein beiau ni.*

*Y cyfiawn uniawn yno – a fwriwyd*
*I'w farwol groeshoelio;*
*Gwanwyd eirf drwy ei gnawd o,*
*A'i Dduwdod gad ei wawdio.*

*Ei Dduwdod oedd guddiedig; dyn welwyd*
*Dan hoelion, yn unig;*
*Gwres y ddeddf dan y groes ddig –*
*Gwaeddodd y bendigedig!*

*Cofir angau cyfryngol – yr Iesu*
*Drwy'r oes fawr dragwyddol;*
*O'i frodyr niferiadol*
*Ni bydd un mewn bedd yn ôl.*

*Does fai nas haeddai, mae'n syn – ei weled*
*Yn nwyo Rhufeinddyn;*
*A'i brofi gan wael bryfyn*
*A barn Duw gerbron dyn.*

Ar ddiwrnod marw Dewi Wyn, 17 Ionawr 1841, dywedodd wrth ei deulu:

*Nid oes dim ond gwaed y Groes*
*a wna'r tro i mi heddiw.*

Bu farw yng ngwir obaith y Pasg a gosodwyd ef i orffwys ym mynwent Llangybi, Eifionydd. Coffa da am y ddau a welodd neges y Pasg.

Rhifyn Ebrill heb y clawr.qxp_Layout 1 18/03/2020 14:07 Page 3

# COFIO RICHARD LLEWELYN HUWS (1902-1980) YN LERPWL

Yn 1962 rhoddodd Cymdeithas Ddinesig Glannau Mersi comisiwn i Richard Llewelyn Huws, pensaer dawnus Cymreig, sef gynllunio ffynnon arbennig ynghanol ddinas Lerpwl. Ganwyd ef ym Mhensarn, Sir Fôn. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Biwmaris ac yna aeth i weithio i gwmni Cammel Laird, Pendebw. Pobl Cammel Laird a adeiladodd y ffynnon iddo ac fel yr wyf fi'n deall maent am ei atgyweirio. Galwyd y ffynnon *'the bucket fountain'*. Gorffennwyd y gwaith yn 1967.

Brwydrodd y gymuned leol yn galed iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn erbyn cais datblygwyr i godi gwesty ar safle'r ffynnon ac roeddynt yn llwyddiannus yn y diwedd.

Ar brynhawn dydd Iau, Chwefror 24ain cafwyd seremoni syml ond effeithiol iawn er côf am Richard Huws a fu farw bedwar deg mlynedd yn ôl i'r diwrnod. Cynhaliwyd y dathliad o flaen y ffynnon yn Beetham Plaza, Drury Lane. Dyma'r unig esiampl o'i waith sydd ar gael yn y wlad bellach.

Yr oedd cyfraniad Côr Capel Bethel dan arweiniad Mr Ifor Griffith a chyda cyfeiliant Mrs Margaret A. Williams yn flaenllaw yn y digwyddiad. Cafwyd darlleniadau o farddoniaeth am ddŵr a Chymru gan rai o aelodau'r côr hefyd.

Bu sgwrs fer gan Dr Robert G. MacDonald am Robert Huws a'i gyfraniad i'r Adran Pensaeryddiaeth ac hefyd soniodd am olion gwaith y Cymry ar hyd a lled y ddinas.

Mae ymgyrch i hel arian i atgyweirio'r ffynnon ar ddechrau a bydd mwy o weithgareddau i ddilyn yn y dyfodol.

***Rhiannon Liddell***



***Cantorion Bethel yn ei morio hi***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Methodd y Parchedig Robert Parry ddod atom ym mis Chwefror oherwydd iddo gael ei daro'n sâl a bu'n rhaid iddo wynebu'r driniaeth lawfeddygol annisgwyl ar yr *appendix*. Gobeithia ailafael yn ei gyfrifoldebau gyda ni ar yr ail Sul ym mis Mawrth. Bu yn ymweld â Mrs Menna Edwards, Blundellsands cyn ei gaethiwed a gwerthfawrogai yn fawr y gofal. Gellir cysylltu gyda'n Cynorthwyydd Bugeiliol ar y ffôn (01352) 391310 neu e-bost: rob.parry@live.co.uk neu i'w gyfeiriad Bryn Dedwydd, 2 County Road, Coed-llai, Sir y Fflint CH7 4RF. Bydd wedi bod yn gynorthwydd i'n gweinidog Dr. D. Ben Rees am flwyddyn pan ddaw 31 o Fawrth. Mae bywyd yn fyr ac amser yn hedfan.

Edrychwn ymlaen i groesawu cenhadon yr Efengyl yr wythnosau nesaf ac aeth Seiat Ymweliad yr Henaduriaeth yn odidog, a chyflwynodd Mr. John P. Lyons yr holl fanylion yn drwyadl i'r tri a ddaeth i archwilio, sef Mrs Marian Lloyd Jones, Wrecsam (Llywydd yr Henaduriaeth), Geraint Jones a'r Parch David Owens.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

'Rydym wedi cyrraedd diwedd mis Chwefror 2020 yn barod ac y mae wedi bod yn fis o dywydd garw iawn. Mis o law trwm, llifogydd enbyd a gwyntoedd cryfion iawn, ond teimlwn yn ffodus iawn i gymharu â rhai mannau yng Nghymru a Lloegr sydd wedi dioddef yn enbyd wrth weld eu cartrefi yn cael eu dinistrio gan y llifogydd.

Teimlaf fod trychinebau fel y gwelsom ar y teledu yn dod a'r rhinweddau gorau posibl allan mewn llawer i berson. Gwelsom lawer iawn o "Samariaid" yn mynd yr "ail a'r trydydd milltir" i fod o gymorth i'r anghenus a rhai yn rhoi eu bywydau eu hunain mewn perygl er mwyn achub eraill. Dyna fraint y disgybl ym mhob oes.

Ar y Sul cyntaf o Chwefror cawsom y cyfle i groesawu ein cyfaill caredig, Y Parchedig John Barnett, West Kirby, i'n harwain yn y gwasanaeth. Nid oedd yn bosibl i'r Parchedig Gwynne Parry gadw ei gyhoeddiad am resymau arbennig felly daeth y Parchedig John Barnett i lenwi'r bwlch.

Fel arfer 'roeddem yn edrych ymlaen at ymweliad Y Parchedig Huw Powell Davies o ofalaeth y Wyddgrug atom ar yr ail Sul a chawsom awr hapus yn ei gwmni. Cawsom bregeth dda ac yn fonws – clywed ei lais peraidd yn canu'r emynau gyda mwyhad.

'Roeddem yn disgwyl ein cynorthwyydd bugeiliol, Y Parchedig Robert Parry, Coedllai ar gyfer y trydydd Sul ond bore Sadwrn cyn y Sul cefais alwad ffôn ganddo o'r ysbyty yn Wrecsam yn dweud na allai fod gyda ni ar y Sul gan ei fod yn disgwyl llawdriniaeth y bore hwnnw. Gan y byddai rhai o'r aelodau i ffwrdd beth bynnag ar y Sul penderfynwyd hysbysu y ffyddloniaid na fyddai gwasanaeth yn Seion gan na fyddai digon o aelodau ar ôl i gynnal cyfarfod gweddi.

Ar y Sul olaf, y pedwerydd, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yr eglwys. Cawsom wasanaeth byr i ddechrau ac yna gyfle i drafod materion eglwysig.

Gan mai Seion yw'r unig eglwys Gymraeg yng Nghilgwri erbyn hyn 'rydym i gyd yn awyddus iawn i gadw'r drysau'n agored a chario ymlaen cyn hired ac y gallwn. Yr ydym yn hapus iawn yn Nosbarth Lerpwl ac yn hapus iawn fod yr Adroddiad Blynyddol wedi dod allan yn brydlon.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwyn ac Olwen Jones, ein haelodau ffyddlon a gweithgar, ar ddathlu eu priodas euraidd ar Chwefror 28ain.

## Cymdeithas Cymry Manceinion

Daeth tymor ein Cymdeithas i ben ar nos Wener, Chwefror 14eg yng nghwmni Mr Alan Davies, Alderley Edge. Teitl ei ddarlith oedd 'Tri Lle', sef Dyffryn Clwyd, Alderley Edge a Llundain - Dyffryn Clwyd lle cafodd ei fagu, Alderley Edge ei gartref presennol a Llundain lle mae'n gweithio o Ddydd Mawrth i Ddydd Iau yn ei swydd fel pensaer. Cawsom noson ardderchog yn ei gwmni a hyfryd oedd gweld darluniau o harddwch Dyffryn Clwyd ar y sgrîn. Darlith hynod o ddiddorol a chofiadwy. Hyfryd hefyd i weld Wendy gwraig Alan.

Edrychwn ymlaen at ddathliadau Gŵyl Ddewi a'r cyngerdd olaf yn y Northern College of Music ar Ddydd Sadwrn 29 Chwefror. Fe fydd y Parch Nesta Davies yn rhoi'r pregeth Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1af yng nghapel Altrincham a chawn ein cinio dathlu yn Noddfa Oaker Avenue ar Fawrth 7fed. Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniad y myfyrwyr, ac mae'r gŵr gwadd eleni yn gyfaill i ni yn y capeli, mab y ddiweddar Clifford Evans, Arwel.

## Capeli Cymraeg Manceinion

Wrth inni deithio trwy'r Grawys eleni ceisiwn ymbaratoi at y Pasg yng nghymdeithas Cristnogion trwy'r holl fyd – gydag amser ychwanegol at weddi, darllen y Beibl a gwasanaethu eraill. Tipyn o benderfyniad a llawer o gariad yw'r elfennau angenrheidiol. Gyda llaw, mae gan Eglwysi lleol gyrsiau Grawys sydd yn fuddiol, yn Saesneg, yma ym Manceinion ac ym mhob man hyd yn oed ar y we! Gofynnwn am arweiniad yr Ysbryd Glân, a dychymyg, i adnewyddu ein bywyd ysbrydol yn ystod Grawys 2020. Dewis i fod yn garedig, dyna oedd cyfarwyddyd olaf ddynes ifanc yn ddiweddar: caredigrwydd, cariad, amynedd a chymwynasgarwch - rhinweddau cristnogol sydd yn brin weithiau yn ein byd. Dyna sydd angen.

Trist yw cofnodi marwolaeth Arfon Owen, aelod ffyddlon yng nghapel Ashton under Lyne ac ar ôl cau'r capel,



*Chwith i'r dde: Anne Hunt, Mair Swift, Alan Davies, Wendy Davies*

Rhifyn Ebrill heb y clawr.qxp_Layout 1 18/03/2020 14:07 Page 5

ymunodd â ni yn Noddfa Oaker Avenue. Brodor o Borthmadog oedd Arfon ac yn Gymro i'r carn. Bu'n athro yn y ddinas am flynydd-oedd lawer cyn ymddeol. 'Roedd yn aelod o Glwb y Ddraig Goch ac yn ffyddlon i bob agwedd o'r bywyd Cymreig yn ninas Manceinion. 'Roedd yn berson hawddgar ei natur a'i gyfarchiad yn wresog. Bu'n athro ysgol Sul yn Noddfa Oaker Avenue am gyfnod a'r plant wrth eu bodd yn ei gwmni. Gwelwn ei golli'n fawr ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Elaine ei wraig, Bethan ei ferch a'i gŵr Adam a'r teulu i gyd yn arbennig Mrs Blodwen Owen Mam Arfon sydd yn 94 oed. Da was, da a ffyddlon.

*Anne Hunt ac Eleri Edwards*

## Cymdeithas Gymraeg Birkenhead

Wedi ysbaid byr ym mis Ionawr, roedd yn dda ail-gwrdd ar Chwefror 3ydd i fwynhau sgwrs gan Parch Aled Lewis Evans, Wrecsam am ei lyfr poblogaidd "Llwybrau Llonyddwch". Bu Aled yn byw mewn sawl ardal yng Nghymru gan fod ei dad yn Bostfeistr – Machynlleth, Llandudno, Y Bermo a Wrecsam. Mae'n cael ei ysbrydoli gan waith creadigol efo dysgwyr y Gymraeg, ac am ddegawd diwethaf bu'n ymwneud â dosbarthiadau oedolion yn Wrecsam, Yr Wyddgrug a Llangollen. Ers Medi 2019 mae'n Weinidog ar Gapel y Groes Ebeneser yn Wrecsam, a Chapel St. John Street, Caer.

Mae'r llyfr yn cynnwys detholiad o ysgrifau am ardaloedd yng Nghymru sydd wedi cael effaith arbennig arno drwy ei oes. Wrth eu darllen, a sgwrsio cawsom rhannu'r pleser a'r wybodaeth am wahanol drefi ac ardaloedd – o'r Bermo i Gilgwri a Lerpwl.

Yn Nyffryn Ardudwy, teimlodd Aled gysylltiad arbennig a hanes Cymru yng ngwlad y Mabinogion. Mae awrgylch hud a lledrith yn dal yno wrth ail ddarllen y Chwedlau. Yn y Bermo, "ei gartref ysbrydol" mwyhaodd blentyndod delfrydol, ond gofidiodd i weld y newid-iadau sydd yno bellach. Clywsom am yr ymdrech i godi goleudai yno er gwaethaf anhawster yr amgylchedd a'r llanw. Y mae gan Langrannog, lle arbennig yn ei galon – fel i amryw o ieuenctid Cymru – gyda'i lan môr heddychlon, a'i gysylltiadau â'r môr a morwyr.

Oddiyno daethom i'r gogledd orllewin – Llandudno, Wrecsam, Cilgwri a Lerpwl, awyrgylch gwahanol gyda'u hapelion unigryw. Yn Llandudno – dringo'r Gogarth gan fwynhau'r goleuni amrywiol, dysgu hanes hen enwau; dilyn llwybrau teulu Mostyn wrth gynllunio'r dref; ymhyfrydu yn yr awyr agored, y môr, a'r machlud. Plas Erddig, a'r hen gastell Fantell, oedd mannau arbennig iddo yn Wrecsam.

Yng Nghilgwri, Ynys Hilbre aeth a'i fryd oherwydd y cysylltiadau Cymreig. Cyfeiriodd yn arbennig at lyfr Lewis Jones (1939) "perl bach o lyfr" sef ei hanes fel "telegraph keeper" ar yr ynys am 36 mlynedd. Un o Gemaes, Môn oedd Lewis, a fu'n byw ar yr ynys gyda'i deulu drwy'r amser. Dechreuodd gapel Cymraeg yn West Kirby, roedd yn fawr ei barch yn y dref. O ddiddordeb arbennig i ni, oedd gwybod fod Lewis Jones, yn hen, hen ewythr i'r Barch Glenys Wilkinson! Dyma gyd-ddigwyddiad hyfryd.

Dros yr afon i ddinas Lerpwl, "prif ddinas Gogledd Cymru' a'r ddyled fawr i adeiladwyr Cymraeg. Mae wrth ei fodd gyda'r ddwy Eglwys Gadeiriol yn Stryd Gobaith, a chlywsom hanesion newydd amdanynt a'u lleoliad yng nghalon y ddinas.

Gyda'i iaith farddonol, ei ddisgrifiadau byw a'i eirfa amrywiol, pleser oedd gwrando ar ddarlithydd yn cyflwyno'r stori mor fyw. Diolchodd Arwel i Aled yn wresog iawn, gan gyfleu mwynhad pawb o'r noson.

Cyfeiriodd hefyd at farwolaeth Mrs Dilys Askew, a chyfleu cydymdeimlad y Gymdeithas i'w theulu. Gwelwn ei cholli o'n mysg, a chofiwn ei gwên hyfryd a'i diddordeb yn y genedl a'n hiaith.

"Swper a Sgwrs" oedd pennawd ein cyfarfod ar Chwefror 17, sef antur newydd i ni fel Cymdeithas. Disgwylir i aelodau'r Gymdeithas gyfarfod a sgwrsio yn y Gymraeg gyda dysgwyr o'r ardal. Pleser arbennig oedd croesawu tuag ugain ohonynt atom yn awyddus i ymarfer eu rhwyddineb yn yr iaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o ddosbarthiadau Neil Jones ac Iola Edwards, eraill yn dysgu'r iaith mewn mannau eraill, a llawer yn aelodau ffyddlon o'n Cymdaithas. Edmygwn eu hymroddiad a'u brwdfrydedd. Cawsom yn gyntaf gyflwyniad gan ddosbarth Neil, o'u sgets buddugol yn Eisteddfod y Dysgwyr a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae "Y Wobr Fawr", yn gwatwar rhaglenni holi y teledu, gydag un cystadleuydd holl wybodol, a beirniad rhagfarnllyd – hwyliog iawn. Yna gofynnwyd i bawb geisio sgwrsio gyda'r dysgwyr, a chlywsom nifer o hanesion difyr, rhesymau am ddysgu'r iaith, ac adnewyddu hen gyfeillgarwch.

Darparwyd swper helaeth gan y pwyllgor, a phawb yn cytuno mai antur llwyddianus oedd y cyfarfod. Menna oedd llywydd y noson, a diolchodd i bawb am eu cyfraniad a'i parodrwydd i gymeryd rhan. Anfonodd ein cofion, a'n dymuniadau da i'r Parch Robert Parry ar ei lawdriniaeth, ac i'n cyfaill Gwenda Hughes sy'n disgwyl llawdriniaeth, wedi torri ei choes. Edrychwn ymlaen at Ginio Gŵyl Ddewi ar Chwefor 28fed, yn y Grove House, Wallasey, yng nghwmni Gwynfor a'i gyfeillion o ardal Rhewl.


**Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi**

# Gŵyl Flynyddol 2020

**Trefnwyd ar gyfer Gŵyl 2020**
**Ŵyl i gofio**

**ENID a DR. EMYR WYN JONES**

**(dau a fu'n weithgar ymhlith Cymry Glannau Mersi.**
**Enid fel ffrind i'r anghenus a Dr. Emyr Wyn Jones fel ffisegwr y galon.**
**Bu farw Enid Wyn Jones yn 1967**
**a Dr. Emyr Wyn Jones yn 1999).**
**Gweler cyfrol goffa Enid, *Cyfaredd Cof* (1970).**



Gwahoddir teulu'r ddau i ddod atom.
Ceir bywgraffiad o'r ddau gan Gadeirydd y Gymdeithas,
darlith gan Gareth Wyn Jones, Bangor o ddiddordeb meddygol ei dad, a
darlith gan yr ŵyr, yr Athro Richard Wyn Jones o Brifysgol Caerdydd.

**Dyma fydd ar fore Sadwrn, 19 Medi (10.30 i 1 o'r gloch).**
**Yna Nos Sadwrn yn Eglwys Fethodistaidd Elm Hall Drive am 7.30 croesawn Côr Johns Boys o Rosllanerchrugog a enillodd cystadlaethau Côr y Byd Eisteddfod Llangollen ac yna yn Eisteddfod Llanrwst Côr Gorau Cymru.**
***Pris y tocyn £15.***
***Gellir ei cael trwy ddwylo Mrs Beryl Williams (0151 722 1092)***

**Ar Sul 20 Medi – Oedfa i gofio'r ddau Gristion am 10.30 yn Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl**

# Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Byr yw dydd o ddyddiau Chwefror,*
*Cynt y dêl yr hwyr na'r wawr:*
*Chwyth y crinddail hyd y cwmwl,*
*Chwyth y ceinciau hyd y llawr.*

Yn yr oedfa ar fore Sul yr ail o Chwefror gweinyddiwyd y cymun sanctaidd gan ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Hyfrydwch o'r mwyaf iddo ac i ninnau fel cynulleidfa oedd derbyn Hilda a Brian Thomas yn aelodau cyflawn ym Methel. Croeso, maent eisioes yn gartrefol yn ein mysg.

Nos Lun, Chwefror 3 noson o'r Gymdeithas Lenyddol yn absenoldeb anorfod Mrs Pryderi Elfed Owen ddod atom i'n diddori, diolch am barodrwydd Cadeirydd y noson y Parch Robert Parry syrthio i'r adwy a'n cyfarch â'r cwestiwn "A fedrwn ni fyw gyda'n gilydd?" Mae anghydfod bob amser yn creu anesmwythyd, chwerwedd a chur pen a hynny yn esgor ar gasineb. Mae yna ffordd o ymwared – Hiwmor a doniolwch, goddefgarwch a chariad. Rhaid i ni ddysgu meithrin parch i amddiffyn hawl a rhyddid yr unigolyn yn wyneb gorthrwm a gormes. Mae 'na dlodi yn ein byd, a phlant yn marw o ddiffyg maeth. Cofiwn am y gân '*Imagine*' John Lennon am fyw'n heddychlon, dyn a'i frawd mewn heddwch. Mae angen rhoi a derbyn cariad arnom fel y mae'r Iesu yn ein cymell.

"Cerwch eich gilydd, fel y cerais i chwi". Cariad all bontio unigolion a gwledydd â'u gilydd. Bu trafodaeth rydd ar ddiwedd y cyfarfod o dan ofal y llywydd Dr. D. Ben Rees. Diolch i'r ddau am eu cyfraniad a'u neges i ni feddwl drosto. Diolchwn i Lilian a Gwenfyl am yr ymborth ar y terfyn.

Ar Nos Lun 17 Chwefror yn y Gymdeithas Lenyddol dangoswyd ffilm o'r enw *Y Syrcas*. Sara Fielding oedd y cadeirydd. Cyflwynodd y ffilm yn gryno ac yn bwrpasol a diolchodd i Mike Farnworth, y dysgwr brwd, am roi ei benthyg i ni. Eglurodd fod y ffilm wedi ei chynhyrchu a'i chyfarwyddo gan Kevin Allen ac wedi ei dangos am y tro cyntaf ar S4C yn 2013. Mae'r ffilm yn dangos yr effaith a gafodd syrcas symudol ar y gymuned leol pan ymwelodd â Thregaron yng Ngheredigion yn 1848. Mae merch ifanc o'r enw Sara, sy'n cael ei llethu gan ei magwraeth or-ofalus, wedi gwirioni ar y cwmni yn gyffredinol a chan yr eliffant yn arbennig, ond nid yw hyn yn plesio ei thad duwiol, sy'n pregethu yn erbyn eu presenoldeb yn y dref. Ceir yn y ffilm gymysgedd o hiwmor a thristwch ond yr hyn a barodd i gynulleidfa Bethel chwerthin fwyaf oedd clywed mai'r lle nesaf yr oedd y syrcas yn ymweld ag ef oedd Llanddewi Brefi! Wrth ddiolch i Sara ar y diwedd dywedodd y gweinidog, Y Parch Ddr D Ben Rees, fod yn ffilm yn dangos caledi'r cyfnod ynghyd â'i ofergoeledd a'i ragrith ac yn fan cychwyn ardderchog i drafodaeth ar y pynciau hynny.

Ar brynhawn Gwener 21 Chwefror cynhaliwyd seiat ymweld yng nghapel Bethel i ymwneud â'r ddwy eglwys, Bethel a Bethania. Yr ymwelwyr oedd y Parchedig David Owen, Mrs Marian Lloyd Jones a Mr Geraint Lloyd Jones o Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain. Cafwyd sgwrs answyddogol dros damaid o ginio, yna trafodaeth ddyfnach am weinyddiaeth y ddwy eglwys. Roedd yr ymwelwyr yn fodlon iawn ar y ffordd y mae'r swyddogion, o dan arweiniad eu gweinidog, yn cynnal yr achos ac yr oeddent yn edmygu'n arbennig ein cynllunio am y dyfodol. Yna cafwyd seiat agored o dan ofal y Parchedig David Owens ar y testun *Gwynfydau*, gan ganolbwyntio yn arbennig ar yr adnod, "Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder."

Ar y 24ain o Chwefror cynhaliwyd Seiat o dan ofal y Parch. Ddr. D. Ben Rees ar y testun "Ann Grifiths". Cyflwynodd fraslun o'i bywyd a phwysleisiodd y cyfraniad helaeth a wnaeth i emynyddiaeth Gymraeg yn yr amser byr y bu ar y ddaear. Credai Dr. Rees fod Ann Griffiths yn deall diwinyddiaeth y Testament Newydd gystal os nad yn well na Williams, Pantycelyn. Mae hi'n amlwg ei bod wedi darllen gwaith Pantycelyn oherwydd mae hi'n cyfeirio at leoedd fel Mecca a dyna'r unig ffynhonell gredadwy y byddai wedi cael y wybodaeth hwn ohoni. Cymaint yw ei dawn nes bod ysgolheigion Lloegr yn arbennig Canon Allchin a'r Athro H. A. Hodges (Reading) wedi dysgu Cymraeg er mwyn astudio'i gwaith. Cawsom ar ddechrau'r cyfarfod ganu'r emyn "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd" a gorffen drwy gyd-ddarllen ei hemyn hwyaf "Rhyfedd, rhyfedd gan angylion" a ddisgrifiwyd gan Saunders Lewis (fel un o ganeuon crefydol mwyaf mawreddog yn llenyddiaeth Ewrop).

Ar nos Sadwrn, Chwefror 29ain cawsom noson bleserus yn Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghlwb Golff Woolton. Ein gŵr gwadd eleni oedd Elfyn Llwyd, ac fe'i cyflwynwyd gan y llywydd y Dr. D. Ben Rees fel un o Betws y Coed, a fu'n astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn ŵr arbennig iawn, yn aelod o Blaid Cymru ac aelod seneddol dros Meirionnydd Nant Conwy a Meirionnydd Dwyfor o 1992 i 2015. Hyfryd oedd gwrando ar Eleri ei briod gyda'i llais soniarus yn canu dwy alaw Gymreig 'Ystrad Fflur' a 'Bae Caernarfon; i gyfeiliant ei gitâr.

Byrdwn yr anerchiad gan Elfyn Llwyd oedd i ni ddathlu drwy edrych i'r gorffennol ac edrych ymlaen. Mae'n rhyfedd ein bod yma o gwbl gymaint y bu ymgais i'n diddymu, ond diolch i'n traddodiadau a'n diwylliant rydan ni wedi goroesi'r cyfan.

Adroddodd straeon difyr i ni am gyfarfod â phobl bwysig o wahanol wledydd, a chyfarfod gyda Chymry ymhobman. Ein coron fawr ni fel cenedl yw ein hiaith ac apeliodd ar i bawb ohonom wneud ein gorau i warchod yr iaith a'i defnyddio fel y ceisiwn ei gyflawni. Mynegwyd ein diolchiadau gan Mr. Roderick Owen i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiannus. Bu'r trefniadau oll yng ngofal y ddwy chwaer Lilian Coulthard a Gwenfyl Bain a gwerthfawrogwn eu cyfraniad yn fawr.

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mai 2020** erbyn bore Mercher, 1 Ebrill 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Mehefin 2020** – erbyn bore Gwener, 1 Mai, 2020 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd am 11 o'r gloch, Gwener, 1 Mai.
- **Rhifyn Gorffennaf 2020 –** erbyn bore Llun, 1 Mehefin, 2020 gan ein bod am bostio'r amlen pnawn Llun am 1.00 o'r gloch i Lanuwchllyn.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron, y cwis, ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/4/2020.**

# CARADOG PRICHARD
## (1904-1980)
### *gan Dr. Pat Williams, Allerton*

Ganed Caradog Prichard ym Methesda a dechreuodd ei yrfa fel newyddiadurwr ar bapurau Cymraeg fel yr *Herald Cymraeg* a'r *Faner*. Bu'n gweithio ar y *Western Mail* hefyd cyn symud i Lundain i fod yn is-olygydd y *News Chronicle* ac wedyn y *Daily Telegraph*. Er mai fel bardd y daeth i'r amlwg yn y lle cyntaf, ar ôl ennill y goron dair blynedd yn olynol: yng Nghaergybi (1927), pan oedd ond yn 22 mlwydd oed, yn Nherorchi (1928) ac yn Lerpwl (1929), yr hyn a'i wnaeth yn awdur poblogaidd yw ei nofel *Un Nos Ola Leuad* (1961), sydd wedi ei chyfieithu i nifer o ieithoedd Ewrop ac a addaswyd i fod yn ffilm. Mae'r nofel hon sydd wedi ei gosod yng nghyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf yn ymwneud â gofidiau ac ofnau plentyn deg oed ac yn torri cwys newydd wrth ymdrin â phynciau megis gwallgofrwydd, trais a hunanladdiad. Yr hyn a symbylodd yr awdur i'w hysgrifennu oedd marwolaeth ei fam ar ôl treulio 30 yn ysbyty'r meddwl yn Ninbych.

Collodd Caradog ei dad o ganlyniad damwain yn y chwarel gan adael ei deulu "yn dlawd ymysg y tlodion." Roedd Caradog yn rhy ifanc i wybod beth oedd wedi digwydd ond roedd ganddo obsesiwn ynglŷn â'r posibilrwydd fod ei dad wedi bod yn fradwr yn streic y Penrhyn, a mynegir hyn yn glir yn ei hunangofiant *Afal Drwg Adda* (1973).



Nodwedd amlwg y gyfrol hon yw ei onestrwydd; mae'n cyfaddef iddo ddioddef oddi wrth iselder ysbryd a chael problem gydag alcohol, ond iddo gael ei achub ar ôl derbyn llythyr oddi wrth ei ferch dair ar ddeg oed. Is deitl y llyfr yw *Hunangofiant Methiant*. Efallai ei fod yn teimlo'n fethiant am nad oedd wedi cyflawni ei fwriad o fod yn offeiriad ac oherwydd ei euogrwydd am fethu â rhyddhau ei fam o'r ysbyty, ond ni fyddai neb sydd wedi darllen ei weithiau llenyddol yn ei ystyried yn fethiant.

Cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, *Canu Cynnar,* yn 1937 a'i chyflwyno i'w fam a chleifion yr ysbyty meddwl yn Ninbych. Mae llawer o'r cerddi hyn gan gynnwys ei dair pryddest yn ymwneud â salwch meddyliol a'r gweddill yn ymwneud â thristwch a siom a dadrithiad. Bu rhaid aros am 20 mlynedd arall am ei gyfrol nesaf o farddoniaeth, *Tantalus* (1957), sy'n cynnwys cerddi yn ymwneud ag atgofion bore oes, am ei brofiadu yn ystod yr Ail Ryfel Byd a cherddi i'w gydnabod.

Er gwaethaf y ffaith ei fod wedi gwneud enw iddo'i hun fe bardd, parhaodd i gystadlu ac enillodd y gadair yn Eisteddfod Llanelli (1962) gyda'i awdl *Llef Un yn Llefain*, sydd yn mynegi teimladau offeiriad a oedd wedi methu yn ei alwedigaeth. Disgrifiodd y profiad gyda'r fath argyhoeddiad nes bod dau o'r beirniaid yn credu mai offeiriad go iawn oedd yr awdur. Cyhoeddwyd yr awdl mewn cyfrol o'r un enw, ond dim ond dwy gerdd, nad ydynt wedi eu cyhoeddi o'r blaen sydd ynddi, sef "Yr Argae" a "Cymru", dwy o'i awdlau anfuddugol.

Roedd deuoliaeth ryfedd yng nghymeriad Caradog Prichard: er iddo gael ei fagu mewn teulu gwerinol mewn pentref lle roedd y rhan fwyaf yn arddel Ymneilltuaeth, roedd ef yn eglwyswr, yn Geidwadwr ac yn bleidiol i'r teulu brenhinol. Hefyd, er gwaethaf ei hiraeth honedig am ei fro enedigol, treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain. Mae ei farddoniaeth yn ysgytwol o ddychmygys a'i chrefft yn gain, ond nid yw'n hawdd ei darllen. Serch hynny, mae ei nofel *Un Nos Ola Leuad* wedi sicrhau lle diogel iddo ymysg ein llenorion pennaf.


**CAPEL Y WAEN**



**Darlith Y Grawys 2020**


**Nos Fercher Ebrill 1, 2020**
**am 7.30yh**

**"CYFRANIAD CYMRY LERPWL"**

Darlithydd:
***Y Parchedig Dr. D. Ben Rees, Lerpwl***

Cadeirydd y Noson:
***Dr Goronwy Wynne***
Paned a Chacen i ddilyn i bawb
Mynediad am Ddim.
*Derbynnir offrwm i helpu i geisio parhau gyda gwaith Cymunedol Gofal Dydd a Helpu'n Gilydd*


## ADOLYGIAD AR DEWI SANT




Martin Crampin, ***Depicting St. David,***
Y Lolfa 2020, Pris £7.99.
76tt. Clawr meddal.

Wrth ddarllen y gyfrol newydd hon mae'r darllenydd yn sylweddoli pa mor bwysig yw bro fy mebyd, Llanddewi Brefi yn hanes ein nawddsant. Ceir gweld hyn ar y dudalen gyntaf:

*'He was later confirmed as archbishop in Wales at the synod at Brefi, where the ground rose beneath him as he preached and a white dove settled on his shoulder'.*

Tudalen 2 mwy eto:

*'Also in Ceredigion is Llanddewi Brefi (the church of David on the river) Brefi, where the synod of Brefi took place, and the collection of early Christian inscribed stones at the church is strongly suggestive of an early monastic site'.*

Yna gwelwn yn Eglwys y Plwyf y ffenestr liw a osododd Powell a'i Feibion yn 1962, a hefyd cerflun o Dewi a baratowyd gan Frederick Mancini a osodwyd yn Eglwys Dewi Sant yn 1959. Ni ddywedir gan yr awdur mae rhodd oedd y cerflun gan yr annwyl Miss Jones, Godregarth, hen ferch a oedd wedi byw i'r Eglwys ac yn barod i roddi rhan helaeth a'i chyfalaf i gael cerflun hardd o Dewi yn atgoffa ni o waith William Goscombe John a osodwyd yn Neuadd Dinas Caerdydd o leiaf hanner can mlynedd yn gynharach. Mae'r ddau yn hynod o debyg. Cip ar Dewi gyda'i ffon a'i gloch yn galw'r afradloniaid i'r gorlan.

Diolch i'r Eglwysi Pabyddol a'r Eglwysi Anglicanaidd am gofnodi ffenestri lliw hardd er cof am y Nawddsant yr ydym mor hoff o'i gofio. Ac ni chafodd ei gofio yn well nag yn Lerpwl a Llundain ac yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn dinasoedd fel Caeredin yn yr Alban a Bryste a Manceinion. Mae hi yn stori nas adroddwyd hyd yn hyn. Cadwodd Cymry alltud y cof am Ddewi yn fyw ar hyd y cenedlaethau. Cawsom yn Lerpwl Eglwys Dewi Sant a deil Ymddiriedolaeth Dewi Sant i'n cefnogi ni yn y flwyddyn 2020. Diolch am y gyfrol hardd hon a gloywder gwaith y cyhoeddwyr.

***D. Ben Rees***

*Myfyrdod*

# BYDDED GOLEUNI

Pan oeddwn yn yr Ysgol Ramadeg yn y Porth, Rhondda (dipyn bach yn ôl!!) cofiaf fy athro, Gilbert Davies mewn gwers Hanes yn adrodd yn deimladwy iawn geiriau yr Arglwydd Gray o Falconer yn dweud, wrth weld y perygl o Rhyfel Byd, "Mae'r lampau i gyd yn diffodd ar draws Ewrop ac ni welir hwy eto yn ein hoes". Bu farw yn 1933 pan ddaeth Adolph Hitler yn ganghellor y "Third Reich". Tywyllwch unwaith eto ac mae yna adegau onid oes pan mae tywyllwch yn drwchus iawn. Rydym i gyd yn cael adegau fel hyn – colli annwyliaid, siomedigaethau mewn gwaith, cymdeithas ac waeth byth mewn cyfeillion.

Fel Cristnogion yr adeg dywyllaf yn ein hanes yw'r "Wythnos Dioddefaint", yr wythnos i'r Groes ond cofiwn yn fwy y daith o "Fethlehem i'r Groes", siwrnai Crist. Wrth ddarllen yr Efengylau – Matthew, Marc a Luc – maent yn cofnodi "A phan ddaeth y chweched awr y bu tywyllwch ar yr holl ddaear hyd y nawfed awr". Roedd fel dywedodd rhywun 'gross darkness', yn arwyddocaol yn llethol ac yn wir yn fwy nag unrhyw adeg yn nioddefaint Rhyfel Byd 2.

Af yn ôl pan yn blant yn yr Ysgol Sul (yn ôl Tom Nefyn – Teml yr Ysbryd Glân) a'r pwyslais mawr ar ddrygioni (bod yn blant da), pechod (peidio gwneud drwg) a dioddefaint (cosbi os yn ddrwg). Fel oeddem yn heneiddio ac edrychwn ar y Groes mae'n codi ynom y cywilydd mwyaf erchyll sut mae DYN yn medru bod mor creulon ac ar y Groes yn hongian y diniweitiaf o'r diniwed ac yn cael Ei lofruddio. Teimlaf, yn onest, ryw euogrwydd mawr ac yr unig beth fedraf ddweud fel yr emynydd Williams *"Rhad faddeuant gwawria bellach,/ gwna carcharor caeth yn rhydd/ Fu'n ymdreiglo yn y tywyllwch / nawr i weled golau dydd"*. Ond wedi dweud hyn i gyd, er yr holl greulondeb mae'r Groes yn ganolog i'r paradocs gogoneddus sy'n curo yn ganol CALON FFYDD. Mae'r "genesis' yn estyn inni oll i hanes y Creu. Roedd tywyllwch ar wyneb y dyfroeddd, OND aeth Ysbryd y Duw ar wyneb y dyfroedd a Duw a ddywedodd "Bydded Goleuni a Goleuni a fu". Yn wir byddaf yn meddwl mai ymhob tywyllwch, calon Duw yw'r cyntaf i dorri am ei fod yn arweinydd i ni. Dywed y Salmydd bod tywyltwch a goleuni "are both alike' iddo Ef. Mae John Keats y bardd yn dweud fel hyn:

*Aye on the shores of darkness, there is light,*
*And precipices show un trodden green*
*There is a budding morrow in midnight*.

Canlyniad hyn i gyd ag sy'n anocheladwy yw fod rhaid i Gristion, disgyblion Iesu fod 'fel y Meistr" a gadael i'r Goleuni tywynnu fel y gogoneddir y Duw Tragwyddol.

Cofiaf gydag anwyldeb, yn Westminster Hall, Llundain, (Eglwys Gadeiriol y Methodistiaid) wrando ar y Parch. Donald Soper yn pregethu ar Ffydd, Gobaith, Cariad ac yn sôn am y tywyllwch ac yn adrodd hanesyn am Robert Louis Stephenson pan yn fachgen bach. Roedd yn disgwyl ei swper ac fe aeth i edrych allan wrth y ffenestr ac fe welodd un o'r dynion y Cyngor yn goleuo lampau nwy y stryd. Galwodd y nyrs ef i'w swper ond gwrthod wnaeth. Ni allai dynnu ei lygaid oddiwrth y goleuwr lampau – "Look, look' meddai, "Mae yna ddyn allan fan yma 'punching holes in the darkness'". Felly rhaid i ni gyd wneud ynte?

*Elwyn*

*Cofleidio Cymru*

# EGLWYS MALLWYD

Saif eglwys Mallwyd yn Nyffryn Dyfi, ar y ffordd o Ddinas Mawddwy i Fachynlleth. Nid anghofiaf ddod yn ôl i Lerpwl ar nos Iau ym mis Gorffennaf, 1983, o'r Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd ym Machynlleth. Yr oedd hi'n noson braf a Dyffryn Dyfi ar ei orau. Mor wahanol oedd profiad y teithydd George Borrow. Dotiai ef at yr olygfa ond blinai gyda'r bryniau serth. Yn ei iaith ef dywedodd: *"hills were here, hills were there"*.

Ni all neb sy'n gwybod hanes Cymru fynd heibio i eglwys Mallwyd heb ganmol ysgolheictod Dr. John Davies (c.1567-1644), gŵr a gyflawnodd orchest arbennig wrth ddiwygio iaith y Beibl ar gyfer cyhoeddi'r argraffiad newydd ym 1620.

Meddyliai John Davies, oedd yn ffrind i William Morgan, lawer am ei blwyfolion. Ar eu cyfer hwy yr ymboenodd, gan losgi'r gannwyll hyd oriau mân y bore er mwyn i'r Cymro Cymraeg allu derbyn bendithion ysbrydol trwy glasuron a gyfieithiodd ef i'r iaith yr oedd yn gymaint o feistr arni.



Daeth yn rheithor Mallwyd ym 1604 a chafodd reithoriaeth Llanymawddwy ddeng mlynedd yn ddiweddarach; fel heddiw, ehangu ei ofal dros wlad eang. Adnabyddid ef fel Dr. John Davies Mallwyd ac y mae'r eglwys yn ein hatgoffa ohono.

## ATEBION CWIS MAWRTH

**Neb wedi cystadlu.**
**Trueni.**
**Gwell tro nesaf.**

Yr atebion:

1) Gellimanwydd
2. Tabernacl;
3. Moriah, Tonypandy
4. Disgwylfa
5. Penrhos
6. Penygarn
7. Bedyddwyr Albanaidd Rhos
8. Ponterwyd
9. Aberporth
10. Clapham Junction
11. Bedyddwyr Llangefni
12. Llanrwst
13. Wesleaid
14. Abertileri
15. Cricieth
16. Cefnddwysarn
17. Bethel, Garnant
18. Newsham Park
19. Eglwys Rydd y Cymry
20. Middlesborough

Rhifyn Ebrill heb y clawr.qxp_Layout 1 18/03/2020 14:07 Page 9

# CARCHARU Y GWRTHWYNEBYDD CYDWYBODOL: ITHEL DAVIES


Daeth y prawf a dedfrydwyd fi i bedwar mis o garchar gyda llafur caled. Cyn i'r ddedfryd gael ei gweithredu ac imi gael fy anfon i garchar, newidiwyd hi i fis o garchar mewn carchar milwrol. Ynad Cynghorol *(Judge Advocate)* y lluoedd arfog a wnaeth hynny yn ôl a ddywedwyd wrthyf.

Yn y cyfwng hwnnw mi gefais fy nghymell yn daer i wadu fy ngwrthwynebiad a chynigiwyd fy ngwneud yn swyddog oherwydd fy ymroddiad, meddai hen uwch-ringyll a oedd yn dipyn o ormesgi. Bygythiai hwn, hefyd, mai fy ngyrru i Ffrainc a wneid ac yno, os parhawn i wrthod gwasanaethu, cawn fy saethu. Mynnai'r gŵr hwn fod ar y fyddin eisiau gŵyr fel fi yn swyddogion, dynion dewr, di-ofn, chwedl yntau. Ond nid oedd na bygythion na chymhellion yn mennu dim arnaf.

Yna i garchar milwrol yr Wyddgrug yr aethpwyd â fi yng ngofal dau filwr. Clymwyd yr ysgrepan ar fy nghefn a gwrthodais gymryd y gwn a oedd yn rhan o'm harfogaeth filwrol! Dyna brofiad oedd glanio yng ngorsaf yr Wyddgrug a meddwl am yr hen Ddaniel Owen. Ac, yn wir, ar y llawr gyferbyn â'r llawr y disgynnem ni arno, yr oedd gŵr mewn tipyn o oed, a barf yn gymwys fel barf Daniel Owen ganddo. Ai ynteu rhith ydoedd yn codi o ddychymyg byw crwt o'r wlad a oedd wedi ymhyfrydu yn stori *Rhys Lewis*? Wn i ddim. Teimlad rhyfedd oedd pan gaeodd hen ddrysau mawr y carchar arnaf ar ôl i mi fynd i fewn a chau'r byd rhydd oddi wrthyf er garwed byd ydoedd yn ei waed a'i strellwch. Cael fy rhoi mewn cell a rhyw hen flocyn mawr o wely ynddi a ddaeth yn gryn hwylustod i mi trannoeth. Canys trannoeth aethpwyd â fi i weithio, neu hynny oedd y bwriad. Mynd i ryw ysgubor o le a llu o fechgyn yn gweithio yno yn gwnïo sachau naill i ddal tywod fel rhan o ddarpar rhyfel neu sachau llythyrau i'r post. Gwrthodais gymryd gafael yn y sach liain a daflwyd ataf a gwrthod cymryd y nodwydd. Ond dyma swyddog cynddeiriog wrth fy ystyfnigrwydd yn bygwth brathu'r nodwydd i fy nghorff, a nodwydd fawr oedd honno. Cymerais y nodwydd o'i law ond ni ddefnyddiais hi i wnïo dim. Bwriwyd fi â dyrnau gan un o'r swyddogion, rhingyll, os cofiaf yn iawn. Yna aethpwyd â fi oddi yno ac yn ôl i'r gell a'm clymu mewn gwasgod rwym *(straight jacket)*. Yr oedd hyn yn benyd arbennig iawn, a'r syniad ynglŷn â hi oedd na ellid plygu na symud dim ond sefyll fel polyn. Ond mi lwyddais i'm taflu fy hun ar y blocyn gwely a threulio oriau hir yn weddol esmwyth. Ni chefais bryd o fwyd canol dydd, a rhywle tua phump o'r gloch neu well dyma sŵn yr allwedd yn nrws y gell. Codais innau'n sydyn ac, yn wir, yn weddol rwydd oddi ar y gwely caled hwnnw a bod ar fy sefyll pan ddaeth dau swyddog i fewn â bwyd imi a'm rhyddhau o'r wasgod rwym. Mawr oedd y rhyddhad hwnnw. Gyda llaw, fel y darganfûm wedyn, dim ond am ddwy awr yr oedd neb i gael ei gaethiwo yn y wasgod honno ar unrhyw un amser. Yr oeddwn i wedi bod ynddi tua chwe awr! Nid oeddwn ddim gwaeth o'r driniaeth a theimlwn yn iawn.

Uffern o le oedd y lle hwnnw, a dweud y gwir. Bore trannoeth wedyn, aethpwyd â fi o'r gell i weithio ym muarth y carchar lle'r oedd nifer o garcharorion yn ceibio a rhofio mewn twll mawr yr oeddynt wedi ei wneud yng nghornel y buarth. Dyma'r rhingyll a oedd gyda mi yn cynnig caib i minnau i fynd i lawr i'r twll. Gwrthodais hi. Gorchmynnodd i mi fynd i lawr i'r twll. Gwrthodais innau. Yna bwriodd fi i lawr a thaflodd y gaib ar fy ôl. A mi'n sefyll yno a dim osgo gweithio arnaf, dyma'r rhingyll yn neidio i lawr i'r twll ar fy ôl ac aeth ati â'i ddyrnau gan fy mwrw yn fy nghorff a fy wyneb a thorri asgwrn fy nhrwyn. Yr oeddwn yn gwaedu fel mochyn; yna cydiodd yn y gaib ac yng ngwar fy nghôt a bwrw pen y gaib ar fy nhraed. Yr oeddwn yn llwyddo i osgoi hynny'n olew, yna dechreuodd fwrw pen y gaib yn erbyn crimog fy nghoesau. Yr oedd yn llwyddo'n well yn yr ymgais honno ond ildio a wnaeth y brawd dicllon yn y man a neidiodd yn ôl i'r buarth a'm galw innau i fyny ar ei ôl. Ond nid oedd y driniaeth ar ben o bell ffordd. Gwnaeth ryw arwyddion na ddeallwn i ar swyddog, rhingyll arall a oedd yng ngofal ymarferiadau corfforol, dyn ifanc heini, tal. Galwodd hwnnw arnaf. Ar ymyl y buarth, yr oedd llwybr yn arwain o amgylch gardd fawr helaeth. Rhoes wthiad imi a gweiddi *'Double up'*. Gwyddwn ystyr hynny ond ni symudais i ddim. Daeth yntau tu ôl imi a fy nyrnu yn fy arennau ac yn fy meingefn. Aeth hyn ymlaen hanner ffordd o amgylch yr ardd. Yna syrthiais yn erbyn wal uchel oedd yn amgylchynu'r ardd ac yn cau'r sefydliad hwnnw oddi wrth y byd mawr rhydd y tu allan. Cydiodd y swyddog hwn yng ngholer fy nghot a fy nghodi i fyny yn erbyn y mur a dechrau fy nyrnu yn erbyn y mur. Yr oeddwn yn crio erbyn hyn oherwydd yr oedd yn fy mrifo'n enbyd. Pan oedd hyn yn mynd ymlaen, dywedais wrtho, yn Saesneg, wrth gwrs, 'Mae'n debyg fod gennych chwithau fam.' Wn i ddim eto pam y dywedais i hynny wrtho. Troes yntau i ffwrdd ac aeth i lawr i ben y llwybr canol a oedd yn arwain i lawr yr ardd i'r buarth. Gwnaeth yno ryw arwyddion ar rywun i lawr ar y buarth ymarfer. Galwodd fi ato a dywedodd ei fod yn fy edmygu am fy nghadernid ac ychwanegodd, 'Bu un ar ddeg o rai tebyg i chwi yn gwrthwynebu yma o'ch blaen ac ymostyngasant i gyd.' Hynny'n sicr a'i gwnaeth yntau mor benderfynol y gallai fy narostwng innau hefyd. Aethpwyd â fi ar fy union i fewn i'r carchar ac i'r ystafell ymolchi a golchais fy wyneb o'r gwaed a oedd arno. Daeth un o'r swyddogion ataf yn ymddangos yn llawn cydymdeimlad â mi oherwydd y driniaeth

# CORNEL Y TRYSORYDD



## EBRILL 2020

| | |
|---|---|
| Mrs Angharad Eastwood, Allerton | £40.00 |
| Mrs Elizabeth Williams, Llansannan | £50.00 |
| Mrs Beryl Jones, Welwyn Grd. City | £100.00 |
| Mrs Gwenda Roberts, Bae Colwyn | £25.00 |
| Mr David J. Williams, Gateacre | £20.00 |
| Cymdeithas Lenyddol Bethel, Lerpwl | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£260.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Rhifyn Ebrill heb y clawr.qxp_Layout 1 18/03/2020 14:07 Page 10

a gefais. Gwelodd yntau fod asgwrn fy nhrwyn wedi ei dorri a dywedais wrtho sut y bu.

O'r dydd hwnnw, cefais lonydd a chael pob caredigrwydd a gofal byd oni ryddhawyd fi i fynd yn ôl i'r gwersyll yn Park Hall yng ngofal dau filwr a ddaeth yno i'm cyrchu. Pan ymddangosais o flaen llywiawdwr y carchar cyn gadael, gofynnodd hwnnw imi a oedd gennyf unrhyw gwynion! Swniai hynny'n rhyfedd i mi. Atebais innau nad oedd gennyf ddim i'w ddatgan yno ond y byddwn yn dweud yr hanes ar ôl mynd allan. Ar ôl dychwelyd i'r gwersyll, mi ysgrifennais yr holl hanes at fy nhad a'm mam ac at hen weinidog Dinas Mawddwy, y Parchedig R. E. Davies, a oedd y pryd hwnnw yn Llanllechid. Rhoddwyd y mater i ofal Llywelyn Williams fel seneddwr. Cododd yntau'r mater yn y senedd mewn holiadau llym i'r Gweinidog Rhyfel.

Yr oedd yr holl hanes, fodd bynnag, wedi mynd yn ôl i'r gwersyll o fy mlaen i ac mi gefais gydymdeimlad parod a chyfan gan y milwyr. Ond y peth pwysicaf a ddigwyddodd yn y cyfwng hwnnw oedd i is-gapten y gatrawd, Peter Angell, Cymro o Gaernarfon, ddod i'm gweld. Bu ef o'r amser hwnnw ymlaen yn gyfaill cywir imi a'i nawddogaeth drosof yn gyson. Er imi gael dedfrydon cyson wedi hynny o garchar gyda llafur caled, gofalodd fy nghadw yn y gwersyll am y pythefnos yr oedd y llafur caled yn cael ei weithredu yn y carchar. Ystyr llafur caled oedd fod carcharor am y pythefnos cyntaf o'i ddedfryd yn gorfod cysgu ar ei wely coed heb ddim matres. Deuai Peter Angell i'm gweld yn gyson unwaith neu ddwy neu fwy yr wythnos tra byddwn yn y gwersyll cyn ac wedi'r llys milwrol. Ef oedd y cyntaf bob amser i'm croesawu'n ôl i'r gwersyll ac ef hefyd oedd yr olaf i ymweld â mi cyn dychwelyd ohonof yn ôl i garchar wedyn. Angel o ddyn oedd Peter Angell. Gŵr addfwyn oedd ef. Nid oedd yn cytuno â mi ond nid oedd geiriau rhy gryf ganddo i gondemnio'r driniaeth a gefais yn yr Wyddgrug ac yr oedd yn falch fod fy achos wedi ei godi yn y senedd. A geiriau parod y milwyr yn ddieithriad imi oedd, 'Stick it Davies', hyd yn oed yr hen ringyll Hannan, er caleted a chased gŵr ydoedd, a sarrug, hefyd, a fu mor dyner ohonof ar bob adeg pan oeddwn yn y gwersyll yn aros prawf pellach o flaen y llys milwrol. Yr oedd fy hanes wedi mynd fel tân trwy Gymru gyfan. Deellais wedyn ddarfod i holl swyddogion y carchar yn yr Wyddgrug gael eu diswyddo, mawr a mân, ar ôl codi'r achos yn y senedd.

Yn y cyfnod hwn, digwyddodd dau beth pwysig, un yn ymwneud â'r gwrthwynebwyr yn gyffredinol, y llall yn fwy personol i mi. Gyrrwyd deg o wrthwynebwyr i Ffrainc a'u dedfrydu yno i farwolaeth. Yna cododd Philip Snowden, a oedd ei hun yn heddychwr, yn y senedd a rhybuddio'r llywodraeth, os saethid un o'r bechgyn hyn, y wynebai'r llywodraeth fwy o helynt yn y wlad hon nag oedd yn ei hwynebu ar y cyfandir. Edifarhaodd y llywodraeth, diddymwyd y ddedfryd a'u dwyn yn ôl i Brydain i wynebu penyd wasanaeth, sef carchar am eu hoes a'u gyrru i Garchar Maidstone yn swydd Caint. Ni chafodd neb ychwaith ar ôl hynny ei anfon i garchar milwrol. Carcharau'r wlad oedd i fod i ni wedi hyn.

Y peth arall a ddigwyddodd i mi yn bersonol, pan oeddwn i yn y gwersyll yn aros fy mhrawf, oedd dyfod gweinidog o Lanfyllin, a oedd yn gaplan gyda'r fyddin yn Ffrainc ac ym maes y gad, i fy ngweld gyda neges oddi wrth y bechgyn yn y ffosydd. Y neges honno oedd am i mi ddal yn gadarn, fod eu dulliau hwy yn fethiant a gobeithio y llwyddai fy nulliau i. Mr. Morris oedd y gŵr parchedig hwnnw ac yn weinidog gyda'r Wesleaid os cofiaf yn iawn. Ni welais i mohono wedyn. Ond yr oedd yna fachgen ifanc o Lanfyllin, yntau'n wrthwynebydd a dreuliodd ei ddedfrydon yng Ngharchar Walton yn Lerpwl. Ni chyfarfûm ag ef tan wedi'r rhyfel. Ond yr oedd chwaer iddo yn dod yn weddol gyson i'm gweld pan oeddwn yn y gwersyll yn aros fy mhrawf.

Yr oedd dau weinidog, E. K. Jones, Cefnmawr, a Wyre Lewis, y Rhos, a ddeuai'n aml i fy ngweld yn y gwersyll a, hefyd, J. Ellis Jones, yntau o'r Gogledd, a fu fwy nag unwaith gyda mi yn y gwersyll. Dau Fedyddiwr ac un Methodist. Yr oedd E. K. Jones yn ddwys grefyddol a byddai'n cynnal cyfarfod gweddi bach yn y gell bob tro. Mewn cell yr oeddwn i yn y gwersyll gyda'r gwahaniaeth, oherwydd hynawsedd pawb, nad oedd hi byth ar glo. Yr oedd yr ymweliadau hynny'n dderbyniol iawn i mi ac yn fy nghadw mewn cysylltiad â phethau, ond mi gredaf y gallaf ddweud yn gwbl ddiargyhoedd imi dderbyn mwy o nerth i ddal oddi wrth agwedd y milwyr ac, yn wir, gan un neu ddau o swyddogion y fyddin. Wrth edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd, rhaid gofyn faint o gymorth a nerth a fu'r gweddïau hynny yn y gell gul honno yn y gwersyll. Y ffaith yw bod popeth yn yr adeg honno'n cyfrannu, y profiadau cysurlon a'r rhai chwerw. Ond yr oedd gennyf i y pryd hwnnw, a chyn hynny, amheuon dwfn am grefydd ac am gynnwys traddodiadol Cristnogaeth. Yr un peth yr oeddwn i'n ei gwbl gredu oedd gwirionedd prydferth y Bregeth ar y Mynydd neu rai rhannau ohoni. Teimlwn yr un fath â Bertrand Russell pan ddywedodd ef, ac yntau'n anffyddiwr, ei fod ef yn credu'n llawer llwyrach yn y Bregeth ar y Mynydd nag oedd Archesgob Caergaint! Yr oedd popeth a oedd yn cyfrannu at ddyfnhau'r gred honno yn naturiol yn gyfnerthiad ysbryd i mi. Er gwaethaf anghrediniaeth crefyddol y Cristnogion a'r sefydliadau crefyddol o bob gradd, yr oedd eneidiau prin fel E. K. Jones a Wyre Lewis yn disgleirio fel ambell seren mewn ffurfafen gymylog ddu. Derbyniol iawn oedd pob cyfathrach ac ymateb a chyfathrachu ag eneidiau cydnaws, ac ymateb iddynt yn atgyfnerthiad. Felly y treuliwn i'r amser yn yr ysbeidiau a'r cyfnodau pan fyddwn i'n aros yn y gwersyll ar ôl dychwelyd o'r carchar a chyn dychwelyd iddo'n ôl. Pedwar cyfnod felly a fu yn ystod y caethiwed hwnnw.




*Chwefror 22ain, 2020.*

Annwyl Olygydd,

***DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL***
***EGLWYS BETHEL, LERPWL***

Fel un sydd â chryn ddiddordeb yng Nghylchgrawn "Yr Angor", ac hefyd yng Nghapel Bethel, Lerpwl, a hynny trwy fy nghysylltiad a Roderick a Norma Owen, sydd fel y gwyddoch yn aelodau yn y Capel arbennig yma, carwn fanteisio ar y cyfle yma i'ch llongyfarch i gyd acw ym Methel am y cyflwyniad arbennig a gafwyd gennych ar y Rhaglen "Dechrau Canu Canu Canmol" .

Wedi i mi wylio'r Rhaglen ar Nos Sul Chwefror 9fed, 2020, teimlais ar fy nghalon fod rhaid dweud wrth fobl Lerpwl am y canu arbennig a gafwyd, ynghyd â'r cyflwyniadau diddorol a didwyll gan Y Parchedig Dr. D. Ben Rees a Roderick Owen. Yn wir, roedd y Rhaglen trwyddo draw yn ganmoliadwy ac ysbrydoledig fydd yn aros yn y côf am amser maith.

Diolch hefyd i chi 'Gymry Lerpwl a Glannau Mersi' am fod mor ffyddlon gyda'r achos ym Methel, gan fawr obeithio y bydd y dystiolaeth Gristnogol yn parhau acw am flynyddoedd lawer.

Unwaith eto llongyfarchiadau mawr a llawer o ddiolch,

Yn gywir iawn,

*Eryl Edwards,*
*Perthi, 5, Cae Gwalia, Llanuwchllyn,*
*Y Bala. LL23 7NA.*

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL EBRILL 2020

Ar y nos Fawrth gyntaf yn Chwefror cawsom noson hwyliog iawn yng nghwmni Mair Tomos Ifans a fu yn sôn wrthym am draddodiad y Mari Lwyd. Cafodd Mair ei magu yn Abergynolwyn ac wedyn Harlech. Mae wedi gweithio fel actores, cantores, sgriptwraig a darlithydd ac yn awr mae'n adrodd storiau ac yn arwain gweithdai mewn ysgolion. Roedd yn un o sylfaenwyr Cwmni y Fran Wen.Mae yn byw yn Dinas Mawddwy ac yno maent yn cynnal traddodiad y Fari Lwyd tua dyddiad yr hen Galan ar Ionawr 12fed. Mae'r traddodiad yn perthyn fwy i Dde Ddwyrain Cymru, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a De Ceredigion. Nid merch yw'r Fari ond dyn yn dal penglog ceffyl ar ben polyn o dan gynfas wen. Mae pen y ceffyl wedi ei addurno a rhubanau a chlychau gyda darnau o wydr yn lle llygaid a dwy glust o frethyn. Mae ceg y ceffyl yn agor ac yn cau gyda clec!! Mae'r criw o ddynion yn mynd a'r Fari o gwmpas tai i ofyn am ddiod a bwyd. Mae gorymdaith y Fari Lwyd Dinas Mawddwy yn dechrau yn y 'Brigands' Inn', Mallwyd, wedyn galw mewn amryw o dai a gorffen yn nhafarn y 'Red Lion' yn Dinas Mawddwy. Ble bynnag mae'r Fari Lwyd yn mynd mae yn gystadleuaeth ganu rhwng y rhai sydd tu fewn a rhai sydd tu allan i'r adeilad. Cawsom flas ar rhai o'r pennillion a genir yn y Red Lion ar ddiwedd yr orymdaith. Clywsom hefyd am draddodiadau eraill fel hela'r dryw, hêl calennig a'r 'Plygain'. Mae'r gair 'Plygain' yn golygu cân y ceiliog a byddai gwasanaeth y Plygain mewn rhai eglwysi yn cael ei gynnal mor gynnar a thri o'r gloch y bore! Mae traddodiad y Plygain yn parhau yng Nghymru ac wedi dod yn fwy poblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf. *(gwelir lluniau ar dudalen 12)*

Yr wythnos ganlynol cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Mr. Bob Parry sydd wedi dysgu'r Gymraeg. Mae yn byw yn Southport ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ei waith bob dydd yn y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yno. Cafodd Mr. Parry ei eni yn Lerpwl ac nid oedd yr un o'i deulu yn siarad yr iaith Gymraeg. Rôl y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yw cofnodi genedigaethau, marwolaethau, priodasau, parterniaeth sifil, mabwysiadau a chofrestr cydnabod rhyw. Mae'r swyddfa yn cofnodi dros Loegr a Chymru. Cawsom wybod ganddo fel mae'r broses o gofrestru wedi gwella dros y blynyddoedd. Dechreuodd y cofrestu dwyieithog yn 1970 ac erbyn heddiw mae'r gyfundrefn gofrestru yn electronig. Penderfynodd Mr Parry ddysgu'r Gymraeg ar gyfer ei swydd. Gwnaeth gwrs Cymraeg gyda'r Brifysgol Agored a bu'n mynd i Goleg Cambria, Wrecsam am un diwrnod yr wythnos am chwech wythnos. Bu hefyd mewn cyrsiau Cymraeg yn y Ganolfan Breswyl yn Nant Gwrtheyrn a mwynhaodd ei amser yno yn fawr iawn. Ei gyfrifoldebau presennol yn y Swyddfa yw creu ffurflenni dwyieithog, cywiro tystysgrifau dwyieithog, cyfrannu at prosiectau newydd, ateb y ffôn pan fo angen rhywun i siarad Cymraeg ac mae yn mynd i'r Swyddfa Gofrestru yng Nghaernarfon, unwaith y mis, er mwyn adolygu'r ystadegau. Er mai dysgu Gymraeg ar gyfer ei waith wnaeth Mr. Parry mae'n awr yn hoff iawn o'r iaith Gymraeg.

Ar ddydd Mawrth Ynyd cawsom groeso i gartref Dr. Pat Williams unwaith eto. Er ei bod yn oer a gwlyb y tu allan cawsom groeso cynnes ganddi, digon o amser i sgwrsio a digon o grempogau i'w bwyta. Diolch i Pat am yr holl baratoadau.

**RHAGHYSBYSIAD –** Ar Fawrth 31ain bydd cyfarfod Cymdeithas Cymry Lerpwl ***yn dechrau am saith o'r gloch*** a dim hanner awr wedi saith, am fod rhaglen o'r gyfres 'Cynefin' ar S4C yn cael ei darlledu am naw o'r gloch. Mae'r rhaglen arbennig yma wedi ei ffilmio yn Lerpwl.

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi/Merseyside Welsh Heritage Society

## *APÊL/APPEAL 2020*

We are extremely grateful for the donations received towards the History of the Liverpool Welsh in the Welsh language which ensured that it appeared on 26 November 2019.

**We invite those who like to support the publication of the English language book, *Liverpool Welsh: A Remarkable History* to be published for Christmas 2020. All donations will be acknowledged in the Angor, and in the book, and a donation of £50 will ensure that you will receive a signed hard back copy.**

### LIST ONE (1/1/2020 i 31/1/2020)

**Total / Cyfanswm ................................£550**

### LIST TWO (1/2/2020 i 29/2/2020)

1) Dr Lewis Evans a Siân Evans, Pontcanna, Caerdydd, the sum of ........................................................................£100
2) Dr Rhys Davies, Lerpwl the sum of....................................£50
3) R.S.J. Financial Planning, Lerpwl 1 the sum of .................£50
4) Elin a Jim Boyd, Aughton nr. Ormskirk the sum of .............£50
5) Dr. Huw Edwards a'r teulu, Llundain the sum of ...............£100
6) Mike Chitty, Lerpwl 25 the sum of ......................................£50
7) Haines Watts, Monks Ferry, Birkenhead, the sum of ......... £50

**Total / Cyfanswm ................................£450**

We have received £1,000 by St. David's Day.
The Appeal will be open till November 30, 2020.

***Can you please send your donations for the next time to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

Yours sincerely

***Dr. D. Ben Rees (Chairman)***
***Ms Rachel Gooding (Treasurer)***
***Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

## Apêl – Angen Lluniau am Lerpwl

***Angen lluniau i'r gyfrol Liverpool Welsh. A Remarkable History.***

Diolchir am y lluniau a dderbyniwyd trwy law Mr. John Wyn Jones, Abertawe (a gynt o Meldrum Road, Wavertree) a hefyd oddi wrth Mrs Gwenda Edwards, Bow Street, Ceredigion (merch y diwedar Barchedig Athro Harri Williams a Mrs Olwen Williams) dau y cofir amdanynt yn y gyfrol *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl* (2019).

Mae angen mwy. Anfoner y lluniau gwreiddiol i'r awdur Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW er mwyn iddo wneud copïau o'r lluniau. Cewch y lluniau yn ôl fel y dymuwch. Diolch am yr hyn a gafwyd a'r hyn hefyd a ddaw – ***D.B.R.***

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# Mari Lwyd, Syrcas a Lluniaeth

**(Lluniau: John G. Williams)**



*Mair Tomos Ifans, Mari Lwyd a Margaret Anwyl Williams*



*Mari Lwyd*



*Eryl yn bwyta popcorn yn Sinema Bethel*



*Sara yn cyflwyno'r ffilm 'Syrcas' a ffilmiwyd yn Nhregaron. Daeth siwrnai y sipsiwn i ben yn Llanddewi Brefi*



*Crempoga gyda Dr. Pat Williams yn ôl ei harfer yn bwydo'r Cymry ar y Noson Flynyddol yn ei chartref*